# Hysbysiad Preifatrwydd – Ysgol Bro Gwaun

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn cynnwys sut mae Ysgol Bro Gwaun (fel y rheolydd data) yn casglu, yn defnyddio ac yn rhannu eich data personol at ddibenion darparu addysg lwyddiannus i blant

**Pam mae angen eich gwybodaeth arnom (diben prosesu)**

Rydym yn casglu a defnyddio eich gwybodaeth bersonol er mwyn inni allu darparu amgylchedd dysgu diogel, cefnogol ac effeithiol.

Caiff y wybodaeth rydych yn ei darparu ei phrosesu yn unol â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data, Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Llywodraeth Leol 2000 (adran 2), Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (adran 60), Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 (adrannau 33, 40, 138 a 140), Deddf Addysg 2004, Cod Ymarfer AAA Cymru, Deddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973 (adrannau 8, 9 a 10), Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007, fframweithiau megis y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid, Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001, Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013, a Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999.

Byddwn hefyd yn gwneud unrhyw ddatgeliadau y mae eu hangen yn ôl y gyfraith a gallwn hefyd rannu'r wybodaeth hon gyda chyrff eraill sy'n gyfrifol am ganfod/atal twyll/troseddau neu archwilio/gweinyddu cyllid cyhoeddus i sicrhau bod arian yn cael ei dargedu a'i wario yn y ffordd fwyaf priodol a chost-effeithiol. Er mwyn cyflawni hyn, caiff gwybodaeth ei rhannu gyda'n Gwasanaeth Archwilio yng Nghyngor Sir Penfro a chydag Archwilydd Cyffredinol Cymru (Polisi Preifatrwydd a Chwcis Archwilio Cymru).

Ni fyddwn yn gwneud unrhyw ddatgeliadau i drydydd partïon at ddibenion marchnata.

Bydd eich data'n ddiogel ac yn gyfrinachol ar bob adeg, a byddwn ond yn casglu'r wybodaeth bersonol sydd ei hangen er mwyn i chi dderbyn ein gwasanaeth.

**Pa fath o ddata personol sy'n cael ei gasglu?**

Mae'r categorïau data personol sy'n cael eu casglu fel a ganlyn:

**Cofnodion disgyblion, ADY a chofrestr:** Enwau, cyferiad, dyddiad geni, manylion cyswllt, rhif unigryw y disgybl, manylion brawd neu chwaer os ydynt yn yr un ysgol, crefydd, ethnigrwydd, cofnodion iechyd a meddygol, alergeddau, gofynion deietegol, ffotografiau, prydau ysgol am ddim, boed yn blentyn sy'n derbyn gofal, data yn ymwneud â chyhuddiadau troseddol posibl trwy adroddiadau diogelwch.

**Teledu cylch cyfyng:** Delweddau/sain

**Ffotograffau / fideos:** Delweddau/sain

**Cofnodion staff:** Enwau, manylion cyswllt, data iechyd/cofnod salwch, dyddiad geni, cytundeb cyflogaeth, cyfeiriadau, yn cael gwirio DBS?

**Ymwelwyr yn mewngofnodi:** Enwau a'r rheswm dros yr ymweliad, ffotograffiau, gwybodaeth cyswllt a'r cofrestru'r car.

**Adrodd am ddamweiniau a digwyddiadau:** Enw, manylion yr anaf, dyddiad, amser, lleoliad y digwyddiad.

**Cynllun parhad busnes:** Enwau, manylion cyswllt

**Beth yw ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol?**

Mae Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) yn ei gwneud yn ofynnol bod amodau penodol yn cael eu bodloni i sicrhau bod prosesu eich data personol yn cael ei wneud mewn ffordd gyfreithlon. Nodir yr amodau perthnasol hyn isod:

- Erthygl 6 (1)(b) Contract: mae'r prosesu'n angenrheidiol ar gyfer contract sydd gennym gyda chi, neu oherwydd eich bod wedi gofyn i ni gymryd camau penodol cyn ymrwymo i gontract.
- Erthygl 6 (1)(e) Tasg gyhoeddus: mae'r prosesu'n angenrheidiol i ni gyflawni tasg a gynhelir er budd y cyhoedd neu ar gyfer ein swyddogaethau swyddogol, ac mae gan y dasg neu swyddogaeth sail glir yn y gyfraith.
- Erthygl 6 (1)(f) Buddiannau cyfreithlon: mae'r prosesu'n angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfreithlon neu fuddiannau cyfreithlon trydydd parti, oni bai fod rheswm da i warchod data personol yr unigolyn sy'n diystyru'r buddiannau cyfreithlon hynny.

Mae rhai mathau o ddata personol yn fwy sensitif nag eraill, ac mae angen iddynt gael eu diogelu'n fwy. Dosberthir y rhain fel 'data categori arbennig' a gallent gynnwys gwybodaeth am eich tarddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol neu aelodaeth undeb llafur, a phrosesu data genetig neu fiometrig, iechyd a bywyd rhywiol, a chyfeiriadedd rhywiol.

Rydym yn prosesu'r math hwn o ddata categori arbennig gan ei fod yn angenrheidiol am y rhesymau canlynol:

- Erthygl 9 (2)(b) Cyflawni rhwymedigaethau ac arfer hawliau penodol y rheolydd neu bwnc y data ym maes cyflogaeth a nawdd cymdeithasol a chyfraith diogelu cymdeithasol.
- Erthygl 9 (2)(g) O fudd sylweddol i'r cyhoedd. Manylwch yma os oes goblygiad statudol i ddarparu data personol a rhestrwch y ddeddfwriaeth briodol.

(Amod perthnasol Deddf Diogelu Data 2018 yw – Atodlen 1, Rhan 2: Diben statudol a llywodraethol)

Yr amod yn Atodlen 1 ar gyfer prosesu data troseddau troseddol yw: Diogelu plant ac unigolion sydd mewn perygl.

**Â phwy fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth?**

Efallai y bydd angen i ni rannu eich data personol ag adrannau mewnol y cyngor, sefydliadau eraill a thrydydd partïon, gan gynnwys y canlynol:

- Cofnodion disgyblion, ADY a chofrestr: **System Rheoli Gwybodaeth Ysgol** (SIMS), **Edukey** gan gynnwys, Class Charts, Safeguard my School, Provision Map; **yr awdurdod lleol**, gan gynnwys, canolfannau hamdden, gofal cymdeithasol, y Tîm o Amgylch y Disgybl, y Rhiant a'r Lleoliad (TAPPAS); **Llywodraeth Cymru** gan gynnwys, Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, Hwb, Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid, Menter Cyfnewid Data Cymru (DEWi); **Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol** (y GIG); **athrawon ymgynghorol allanol**; **EVOLVE** (teithiau ysgol); **ysgolion cynradd ac uwchradd** (at ddibenion pontio); S2S Data Transfer system; **Haven Systems** (prydau bwyd cinio); **nyrs yr ysgol**; **Wonde**; **Class Dojo**; **Power BI**; **Darllen Co**; **Urdd**; **Carousel Learning**; **Nessy**; **Clicker**; **GroupCall Xporter**; **GL Assessment**; **gwasanaethau cymorth ieuenctid**; **colegau addysg bellach a hyfforddwyr yn y gweithle**; **cyrff arholi**; **Gyrfa Cymru; Y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu**; **Learning Curve Group**; **Heddlu**; **Really Pro Ltd**; **Time Tables Rock Stars**; **Estyn**; **MathsWatch; Libresoft; SMID; NoMoreMarking; Across Cultures (Learning Village);**
- Teledu cylch cyfyng: **Yr heddlu**; **Dyfed Alarms**; **yr awdurdod lleol**
- Ffotograffau a fideos: **Hwb**; **y cyfryngau cymdeithasol**; **y cyfryngau lleol**, ac o bosibl, **y cyfryngau cenedlaethol**; **gwefan yr ysgol**; **Class Dojo, cylchlythyr yr ysgol**

- Cofnodion staff: **Yr awdurdod lleol**; **Hwb**; **System Rheoli Gwybodaeth Ysgol** (SIMS); **CBAC**; **Cyngor y Gweithlu Addysg**; **yr heddlu**; **llywodraethwyr; cyrff eraill at ddibenion cyfeirio**; **Estyn**; **Microsoft Office 365; Google Workspace for Education; SchoolCloud Room Booking System**

- Ymwelwyr yn mewngofnodi: **EntrySign**; **llywodraethwyr yr ysgol**;
- Adrodd am ddamweiniau a digwyddiadau: **Hwb**; **adran iechyd a diogelwch yr awdurdod lleol** (meddalwedd adrodd ar ddamweiniau Evotix); **Edukey**
- Cynllun parhad busnes: **System Rheoli Gwybodaeth Ysgol (SIMS)**; **Llywodraethwyr**; **yr Awdurdod Lleol**

Rydym yn defnyddio proseswyr data (trydydd partïon) sy'n darparu gwasanaethau i ni o ran darpariaeth TG ac adfer ar ôl trychineb. Mae gennym gontractau ar waith gyda'r proseswyr data hyn ac ni allant wneud unrhyw beth â'ch gwybodaeth bersonol oni bai ein bod wedi eu cyfarwyddo i wneud hynny. Byddant yn cadw eich data yn ddiogel a bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu yn unol â GDPR y DU yn unig. Lle bo angen trosglwyddo eich gwybodaeth bersonol y tu allan i'r DU fel rhan o'r contractau hyn, dim ond yn unol â GDPR y DU y gwneir hyn.

Mae gan Ysgol Bro Gwaun ddyletswydd i ddiogelu'r arian cyhoeddus y mae'n ei reoli. Felly, gall y wybodaeth rydych wedi'i darparu i ni gael ei defnyddio er mwyn atal a chanfod twyll ac at ddibenion archwilio yn fewnol ac yn allanol.

Caiff yr wybodaeth bersonol rydym wedi'i chasglu ei rhannu gydag asiantaethau atal twyll a fydd yn ei defnyddio i atal twyll a gwyngalchu arian ac er mwyn dilysu eich hunaniaeth. Os caiff twyll ei ganfod, gallai gwasanaethau penodol, cyllid neu gyflogaeth gael eu gwrthod i chi. Gallwch weld rhagor o fanylion am sut y caiff eich gwybodaeth ei defnyddio gennym a'r asiantaethau atal twyll hyn, a'ch hawliau diogelu data, yma CIFAS.

**Pa mor hir ydyn ni'n cadw'ch gwybodaeth?**

Bydd Ysgol Bro Gwaun ond yn cadw eich gwybodaeth am gyhyd ag y bydd angen. Byddwn yn cadw'r wybodaeth a ddarperir inni am:

**Cofnodion disgyblion, ADY a chofrestr:** Hyd at bod y dysgwr yn 25 oed, ond lle mae gan ddysgwr Datganiad o Anghenion Addysgol neu IDP Ysgol/LA, hyd nes bod y dysgwr yn cyrraedd 31 oed.

**Teledu cylch cyfyng:** 30 diwrnod.

**Ffotograffau / fideos:** Mae'n dibynnu - Deunyddiau sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad – tan ddyddiad cau'r adborth ar y broses dan sylw neu tan i unrhyw apel, anfwriad neu ymchwiliadau canlyniadau eraill gael eu cwblhau (JCQ ICC 12.4 & 21.2)

**Cofnodion staff:** 7 mlynedd.

**Ymwelwyr yn mewngofnodi:** 1 flwyddyn (Ffotografiau a Llofnod yn cael eu cadw am 30 diwrnod yn unig).

**Adrodd am ddamweiniau a digwyddiadau:** Oedolion – 6 mlynedd, Disgyblion - yn unol â'u cyfnod cadw

**Cynllun parhad busnes:** Am gyfnod cyflogaeth y staff a thra bod y disgybl wedi cofrestru.

a bydd eich gwybodaeth yn cael ei gwaredu'n ddiogel unwaith na fydd ei angen mwyach.

**Eich hawliau**

Dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018, mae gennych hawliau fel unigolyn, gan gynnwys:

- Yr hawl i **gywiro** – mae gennych yr hawl i ofyn i'ch gwybodaeth gael ei chywiro.
- Gall yr hawl i **gyfyngu** ar brosesu fod yn gymwys – gallwch ofyn i ni atal prosesu eich data personol; fodd bynnag, gallai hyn oedi neu ein hatal rhag cyflenwi gwasanaeth i chi. Byddwn yn ceisio cydymffurfio â'ch cais ond efallai y bydd angen i ni gadw neu brosesu gwybodaeth er mwyn cydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol.
- Yr hawl i **wrthwynebu** – nid yw hwn yn hawl ddiamod a bydd yn dibynnu ar y rheswm dros brosesu'ch gwybodaeth bersonol.

- Yr hawl i **ddileu** – gallwch ofyn inni ddileu eich data personol, ond gall hyn achosi oedi neu ein hatal rhag darparu gwasanaeth, neu rhag parhau i ddarparu gwasanaeth. Byddwn yn ceisio cydymffurfio â'ch cais ond efallai y bydd angen cadw neu brosesu gwybodaeth er mwyn cydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol.
- Yr hawl i beidio â bod yn destun **penderfyniadau a phroffilio awtomataidd**.
- Yr hawl i gael **mynediad** – mae gennych yr hawl i ofyn inni am gopïau o'ch data personol. Er mwyn gwneud cais, cysylltwch â'r canlynol:
  Mynediad i Gofnodion
  Cyngor Sir Penfro
  Neuadd y Sir
  Hwlffordd
  SA61 1TP

E-bost: accesstorecords@pembrokeshire.gov.uk Ffôn: 01437 764551

**Cwynion neu ymholiadau**

Mae Ysgol Bro Gwaun yn ceisio bodloni’r safonau uchaf posib wrth gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Am y rheswm hwn, rydym yn cymryd unrhyw gwynion rydym yn eu derbyn am hyn o ddifrif. Rydym yn annog pobl i ddweud wrthym os ydynt yn credu ein bod yn casglu neu ddefnyddio gwybodaeth yn annheg, yn gamarweiniol neu'n amhriodol.

Nid yw'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rhoi manylion cynhwysfawr o'r holl agweddau ar sut rydym yn casglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Fodd bynnag, rydym yn hapus i ddarparu unrhyw wybodaeth neu esboniad ychwanegol sydd ei angen. Dylai unrhyw geisiadau am hyn gael eu hanfon at y cyfeiriad isod:

Swyddog Diogelu Data
Ysgol Bro Gwaun
Heol Dyfed
Abergwaun,
Sir Benfro,
SA65 9DT

E-bost: office@ysgolbrogwaun.com Ffôn: 01348 872268

Os ydych am wneud cwyn am y ffordd rydym wedi prosesu'ch gwybodaeth bersonol, gallwch gysylltu â Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth fel y corff statudol sy'n goruchwylio deddfwriaeth diogelu data:

Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth - Cymru
Yr Ail Lawr, Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

E-bost: wales@ico.org.uk Ffôn: 0330 414 6421

**Ein manylion cyswllt fel rheolydd data:**

Swyddog Diogelu Data
Ysgol Bro Gwaun

Heol Dyfed
Abergwaun,
Sir Benfro, SA65 9DT

E-bost: office@ysgolbrogwaun.com Ffôn: 01348 872268

Mae gwybodaeth ein Swyddog Diogelu Data wedi'i nodi uchod yn yr adran 'Cwynion ac ymholiadau'.

**Newidiadau i'r hysbysiad preifatrwydd hwn**

Rydym yn adolygu ein hysbysiad preifatrwydd yn rheolaidd.